Prawf budd y cyhoedd ar y sefyllfa uno posibl mewn perthynas ag ITV M&E Holdings Limited

Nodyn cyfarwyddyd

Cyhoeddwyd 5 Tachwedd 2026

1. Nodyn cyfarwyddyd

1.1 Cefndir a rôl Ofcom

1.1 Ar 4 Tachwedd 2026, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol Hysbysiad Ymyrraeth Budd y Cyhoedd ("PIIN")[1] o dan adran 42(2) o Ddeddf Menter 2002 (y "Ddeddf") mewn perthynas â'r sefyllfa uno berthnasol bosibl sy'n deillio o'r caffaeliad arfaethedig gan Sky UK Limited o ITV M&E Holdings Limited.

1.2 Mae'r PIIN yn nodi'r ystyriaethau budd cyhoeddus canlynol fel rhai a allai fod yn berthnasol i'r sefyllfa uno berthnasol a nodwyd:

- "yr angen am fynegi barn yn rhydd yn y cyfryngau newyddion;
- yr angen, i'r graddau y mae'n rhesymol ac ymarferol, amrywiaeth ddigonol o safbwyntiau yn y cyfryngau newyddion ym mhob marchnad ar gyfer cyfryngau newyddion yn y Deyrnas Unedig neu ran o'r Deyrnas Unedig;
- yr angen, mewn perthynas â phob cynulleidfa wahanol yn y Deyrnas Unedig neu mewn ardal neu leoliad penodol o'r Deyrnas Unedig, am amrywiaeth ddigonol o bobl sydd â rheolaeth o'r mentrau cyfryngau sy'n gwasanaethu pob cynulleidfa;
- yr angen i ystod eang o (i) raglenni ddarlledu a (ii) rhaglenni ar-alw fod ar gael ledled y Deyrnas Unedig, sydd (pan ystyrir yn eu cyfanrwydd) o ansawdd uchel ac wedi'u cynllunio i apelio at amrywiaeth eang o chwaeth a diddordebau."

1.3 Mae'n ofynnol i Ofcom adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 44A o'r Ddeddf. Mae'r PIIN yn nodi bod yn rhaid i ymchwiliad ac adroddiad Ofcom gael ei gwblhau erbyn 5pm, 27 Ionawr 2027.

1.4 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut y byddwn yn bwrw ymlaen.

1.5 Ein rôl yw cynnal ymchwiliad cychwynnol i'r ystyriaethau budd y cyhoedd a nodwyd yn y PIIN a darparu cyngor ac argymhellion ar benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch a ddylai gyfeirio'r achos at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ("CMA") i'w ddadansoddi ymhellach. Byddwn yn canolbwyntio ar effeithiau'r trafodiad ar yr ystyriaethau a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac ni fyddwn yn ymdrin â materion cystadleuaeth. Mae'r rhain yn dod o fewn awdurdodaeth y CMA. Bydd ein hadroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn cynnwys crynodeb o unrhyw sylwadau a dderbyniwn ynglŷn â'r achos.

1.6 Cyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol yw penderfynu a ddylid cyfeirio'r achos at y CMA i'w ymchwilio ymhellach, yn sgil ein hadroddiad.

1.2 Canllawiau ar y broses

1.7 Mae ein proses wedi'i rhannu'n ddwy brif ran:

a) casglu a dadansoddi gwybodaeth; a

b) paratoi ein cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol.

[1] Daw'r PIIN yn dilyn cyhoeddi llythyrau 'mynegi bwriad' ar 15 Hydref 2026.

1.3 Casglu a dadansoddi gwybodaeth

Cyhoeddi'r gwahoddiad i wneud sylwadau

1.8 Gwnaethom gyhoeddi gwahoddiad i wneud sylwadau ar ein gwefan ochr yn ochr â'r cyfarwyddyd hwn ar 5 Tachwedd 2026. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r materion yr ydym yn ceisio mewnbwn arnynt ac yn egluro sut i wneud sylwadau i Ofcom ar y mater hwn. Rydym yn gwahodd ymatebion ysgrifenedig, wedi'u hategu gan dystiolaeth, i gael eu cyflwyno heb fod yn hwyrach na 5pm, 13 Tachwedd 2026. Oherwydd amserlenni a osodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, efallai na fyddwn yn gallu ystyried ymatebion a gyflwynwyd ar ôl y dyddiad hwn yn llawn.

1.9 Sylwer, os bydd unrhyw berson (yn fwriadol neu'n fyrbwyll) yn darparu gwybodaeth i ni yn y cyd-destun hwn sy'n ffug neu'n gamarweiniol, mae'n drosedd y gellir ei gosbi â dirwy a/neu ddwy flynedd o garchar.[2]

Ymgysylltu â'r partïon sy'n rhan o'r sefyllfa uno berthnasol bosibl

1.10 Mae Ofcom yn disgwyl ceisio gwybodaeth gan y partïon i'r sefyllfa uno berthnasol posibl. Cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn unrhyw geisiadau, dylent drafod gydag Ofcom argaeledd y data y gofynnwyd amdano a'r ffurf y bydd ar gael. Efallai y bydd Ofcom hefyd yn dymuno trafod pwyntiau a godwyd yn eu cyflwyniadau ac unrhyw gwestiynau cysylltiedig eraill.

Ymgysylltu â thrydydd partïon

1.11 Gall Ofcom hefyd ofyn am wybodaeth gan drydydd partïon lle bo'n briodol, ac yn unol â'r amserlen a osodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

1.12 Mae Ofcom yn cadw cyfrinachedd llym ym mhob agwedd ar ei weithrediadau. Byddwn yn rhoi pob cyflwyniad perthnasol (gan gynnwys rhai cyfrinachol) i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w galluogi i wneud ei phenderfyniad. Byddwn hefyd yn darparu gwybodaeth i'r CMA lle bo'n briodol (gweler hefyd paragraff 1.18 isod). Byddwn yn gofyn am fersiwn lawn nad yw'n gyfrinachol o unrhyw gyflwyniadau cyfrinachol, ynghyd â'r rhesymau pam y dylid trin gwybodaeth yn gyfrinachol.

Dadansoddiad mewnol

1.13 Bydd dadansoddiad Ofcom yn tynnu fel y bo'n briodol o gyflwyniadau rhanddeiliaid yn ogystal â gwybodaeth sydd gennym eisoes ar gael yn fewnol, ac unrhyw ffynonellau eraill yr ydym yn eu hystyried yn berthnasol.

1.4 Paratoi ein cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol

1.14 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol, byddwn yn cydgrynhoi canlyniadau ein dadansoddiad mewnol a'r pwyntiau a godwyd gan randdeiliaid i gyrraedd safbwynt dros dro ar ein hargymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol.

[2] Adran 117 o'r Ddeddf.

1.15 Pe bai ein safbwynt dros dro yn yr achos hwn yn codi materion budd cyhoeddus a allai fod yn sylweddol, byddem yn anfon llythyr at y partïon sy'n rhan o'r sefyllfa uno berthnasol bosibl, gan nodi'r prif ddadleuon a'r dystiolaeth yn yr achos. Os yw'n briodol ac yn ymarferol, byddai'r llythyr yn cynnwys cynnig cyfarfod i drafod y materion, lle gallai'r partïon drafod ein safbwynt drafft a'r dadansoddiad sy'n sail iddo.

1.16 Bydd Ofcom yn cwblhau ei adroddiad ac yn ei anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol erbyn 5pm, 27 Ionawr 2027, ynghyd ag unrhyw ddeunydd arall a allai fod yn berthnasol i'w phenderfyniad.

1.17 Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol wedyn yn penderfynu a ddylid cyfeirio'r achos at y CMA i'w ddadansoddi ymhellach. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi ei phenderfyniad a'n hadroddiad ar yr un pryd.

1.18 Os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyfeirio'r mater at y CMA, bydd Ofcom yn rhoi'r holl wybodaeth berthnasol sydd yn ei feddiant ar gael i'r CMA er mwyn caniatáu iddo gynnal ei ddadansoddiad.